

Cyngor Dinas Casnewydd: Gwasanaethau Addysg

Fforwm Derbyniadau Ysgol

Cofnodion y Cyfarfod

Dyddiad: 21 Mehefin 2022

Yn bresennol: Aelod Etholedig CDC (y Cadeirydd)

Rheolwr Derbyniadau ac Apeliadau CDC
Yr Esgobaeth Gatholig
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr
Cynrychiolydd Plant sy'n Derbynn Gofal (dim pleidlais)
Ymgynghorydd ar gyfer Ymddygiad ac Awtistiaeth (dim pleidlais)
Cynrychiolydd Cymunedau Lleol (Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GALIEG))
Cynrychiolydd Cymuned Leol (EY)

Clerc y Fforwm

Ymddiheuriadau: Rheolwr Gwasanaeth CDC

Cynrychiolydd Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr

Aelod Etholedig CDC

Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir

Cynrychiolydd Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr



1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol a rhoddwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod yn rhai gwir a chywir.

3. Materion yn Codi

Penderfynwyd ar drefniadau derbyn 2023 erbyn 15 Ebrill 2022 a byddant yn cael eu cyhoeddi fis nesaf yn barod ar gyfer y rownd meithrin.

4. Aelodaeth

Diweddarodd LP y Fforwm ar y 4 newid canlynol:

Mae 2 aelodaeth wedi cael eu hymestyn am gyfnod arall o 4 blynedd: Cynrychiolydd ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr a chynrychiolydd y gymuned leol (GALIEG).

Mae 2 aelodaeth wedi dod i ben: Cynrychiolydd ALI a chynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr. Mae enwebiadau'n cael eu ceisio ar hyn o bryd drwy'r GCA i lenwi swydd y rhiant-lywodraethwr.

5. Rownd Dderbyn Flynyddol

Gwnaeth JL ddiweddarau'r Fforwm ar y sefyllfa ddiweddaraf. Mae'r tîm yn parhau i weithio ar rowndiau hwyr yn dilyn dyddiadau cau 2022 a nodwyd pwyntiau allweddol ychwanegol fel a ganlyn:

Uwchradd:

- Crëwyd capasiti ychwanegol yn Ysgol Basaleg, Ysgol Uwchradd Llyswry ac Ysgol John Frost i ddarparu ar gyfer y galw ac o ganlyniad, roedd pob plentyn a fynegodd ddewis "ar amser" ar gyfer eu dalgylch yn llwyddiannus.
- Ar 10 Mehefin 2022, tra bod 37% (58) o leoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg yn dal ar gael, dim ond 5% o'r lleoedd cyfrwng Saesneg sydd ar gael yn 2 o'n 7 ysgol uwchradd Saesneg – Llan-wern (92) a Llyswry (9). Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff hefyd yn llawn.
- Mae 13 o geisiadau uwchradd heb eu terfynu eto (gyda 5 ohonynt yn cael Addysg Ddewisol yn y Cartref), ac mae 19 yn rhagor o ddisgyblion Casnewydd heb gael cynnig lle mewn ysgol ar hyn o bryd. Mae'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn gohebu â'r teuluoedd hynny i ddod o hyd i ateb.

Cwestiynodd y Cadeirydd y data o fewn yr adroddiad. Esboniodd JL fod rhai ceisiadau yn nodi mwy nag 1 dewis ac felly lle mae dewis uwch yn cael ei gynnig, ni fydd angen unrhyw ddewisiadau ychwanegol mwyach.

Derbyn:

- Eleni gwnaed gwrthodiadau dalgylch yn Ysgolion Cynradd Parc Jiwbilî (23) a Chleidda (5); cafodd 21 o'r 23 o wrthodiadau ar gyfer Parc Jiwbilî ddewis rhiant amgen (dim angen cap ychwanegol).
- Ar y dyddiad cynnig, roedd llefydd yn dal ar gael mewn 5 o'r 7 ysgol wirfoddol a gynorthwyir yng Nghasnewydd ond nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o'r sefyllfa bresennol yn unrhyw un o'r ysgolion hyn.
- Ar 24 Mai 2022, mae 15% (294) o leoedd derbyn cyfrwng Saesneg yn parhau i fod ar gael ledled y ddinas; y ffigwr hwn yw 22% (31) ar gyfer lleoedd cyfrwng Cymraeg.
- Mae 29 o geisiadau cynradd heb eu penderfynu ar hyn o bryd, ac mae 11 yn rhagor o ddisgyblion Casnewydd heb gael cynnig lle mewn ysgol ar hyn o bryd. Mae'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn gohebu â'r teuluoedd hynny i ddod o hyd i ateb.

Meithrin:

- Mae dros hanner o leoliadau meithrin y Cyngor yn dal i fod â llefydd ar gael ar gyfer mis Medi 2022, gan gynnwys 3 o'r 4 meithrinfa cyfrwng Cymraeg lle mae cyfanswm o 60 o leoedd cyfrwng Cymraeg yn weddill i gyd - gyda 42 ohonynt yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Dim ond 8 lleoliad cyfrwng Saesneg sy'n llawn.

Cwestiynodd y Cadeirydd y lleoedd gwag dros ben yn y sector meithrin a'r effaith ar gyllidebau / adnoddau. Cadarnhawyd bod lleoedd gwag yn cael eu monitro gan POSP ac nad oes unrhyw bryderon wedi'u codi. Mae'r nifer derbyn meithrin yn cynrychioli 2 sesiwn y dydd ac mae 3 rownd dderbyn ar wahân, Medi, Ionawr ac Ebrill, felly bydd lleoedd dros ben yn gostwng wrth i geisiadau Plant sy'n Codi'n 3 Oed gael eu prosesu yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Cwestiwn i'w gynnig yn y cyfarfod POSP nesaf a'r ymateb i'w roi i aelodau.

Holodd JB a yw data'n cael ei gofnodi ar ddyraniadau a data dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg er mwyn archwilio'r rhesymau pam y gallai rhai rhieni fod yn ymgeisio ar gyfer ysgolion y tu allan i'r dalgylch. Esboniodd DW nad yw hyn fel arfer yn cael ei goladu fodd bynnag mae prosiectau penodol wedi'u cynnal yn y gorffennol. Eglurodd JB mai'r gred yw bod 43/44% o ddisgyblion YGBT o'r tu allan i'r dalgylch ac mae pryderon wedi'u codi ynghylch a allai hyn fod oherwydd amgylchiadau YGNG. Ymarfer mapio i'w gynnal a'i ddsbarthu i'r Fforwm.

Apeliadau:

- Dechreuodd gwrandawiadau apeliadau uwchradd ym mis Mai, a hyd yma, clywyd 31 o apeliadau; dim ond 5 aeth o blaid y rhiant.
- Mae 28 o wrandawiadau apeliadau derbyn wedi'u trefnu i ddechrau ar 27 Mehefin 2022 am 5 diwrnod.

- Gan fod gwrthodiadau wedi'u gwneud mewn rowndiau hwyr, bydd mwy o apeliadau'n cael eu cyflwyno ac felly caiff mwy o wrandawiadau eu trefnu drwy gydol tymor yr haf a gwyliau'r haf.

Hysbysodd AR y Fforwm fod 345 o geisiadau wedi'u derbyn ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff (Nifer Derbyn: 240). Clywyd 15 apêl, a chafodd pob penderfyniad ei gadarnhau ar ran yr ysgol.

6. Derbyniadau yn Ystod y Flwyddyn

Adroddodd JL ar y sefyllfa ddiweddaraf yn ystod y flwyddyn gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol canlynol o ddadansoddiad Tymor y Gwanwyn.

- Derbyniwyd 449 cais yn ystod tymor y gwanwyn 2022, sydd bron dwbl y nifer gafodd eu derbyn yn yr un cyfnod y llynedd. Daw hyn â chyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd y flwyddyn academaidd hon hyd yn hyn i 1197 (1437 yw'r cyfartaledd blynyddol ar gyfer y pedair blynedd diwethaf).
- Mae tua hanner (46%) o'r ceisiadau'n parhau i gael eu gwneud oherwydd symud i'r ddinas;
- Bodlonwyd 54% o'r dewisiadau cyntaf, sy'n dangos cyd-destun y ddinas (nifer fawr o geisiadau yn cael eu derbyn yn erbyn capasiti cyfyngedig mewn rhai ardaloedd).
- Proseswyd 92% o'r ceisiadau o fewn amserlenni Llywodraeth Cymru, gyda rhesymau dilys wedi'u cofnodi ar gyfer y rheiny a aeth heibio'r dyddiad cau. Mae hyn yn welliant enfawr ar berfformiad Tymor yr Hydref (65%), yn deillio o ostyngiad staffio, swyddi gwag a'r nifer uchaf o geisiadau ers sawl blwyddyn.
- Derbyniwyd 31 o apeliadau derbyn: 21 cynradd, 10 uwchradd. Cafodd 5 eu tynnu'n ôl cyn cael eu clywed. O'r 26 penderfyniad, cafodd 5 eu cadarnhau o blaid y rhiant.
- Ar 27 Ebrill, roedd y Cyngor yn cadw'r lefel ganlynol o leoedd gwag (y lefel optimwm a argymhellir gan LIC yw 10%):
 - Lleoedd ysgol gynradd Saesneg - 9%
 - Lleoedd ysgol gynradd Cymraeg - 17%
 - Lleoedd ysgol uwchradd Saesneg - 7%
 - Lleoedd ysgol uwchradd Cymraeg - 32%
 - O fewn y clwstwr Catholig, mae 2% o leoedd ysgol gynradd yn wag a 0% o leoedd ysgol uwchradd yn wag.

Cafodd pryderon eu codi ynglŷn â'r ganran uchel o lefydd gwag yn y sector cyfrwng Cymraeg. Cadarnhawyd bod y sefyllfa hon yn cael ei monitro'n barhaus ac mae rhaglen waith yn parhau. Disgwylir i'r sector cynradd ac uwchradd gynyddu yn unol â tharged Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Cododd FR gwestiwn gan NAHPPS yn gofyn a fyddai modd cynnwys iaith y cartref yn yr adroddiadau Cam Derbyn sy'n cael eu dosbarthu i ysgolion. Cadarnhaodd JL fod nifer fawr o geisiadau bellach yn cael eu cwblhau ar-lein ac yn anffodus mae cyfyngiadau mawr ar y system. Bydd y Tîm Derbyn i Ysgolion fodd bynnag yn adolygu'r sefyllfa hon eto ac yn rhoi diweddariad.

7. Hyfforddiant Aelodau: Addysg Gymraeg

Gofynnodd JL i'r Fforwm nodi cynnwys yr adroddiad sy'n amlinellu sefyllfa'r Cyngor a'r bwriad i gynyddu canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd o 10% i 20% erbyn 2050. Mae hybu'r cyfrwng Cymraeg yn allweddol i'r awdurdod ac yn faes sydd angen ei ystyried gan aelodau'r Fforwm. Bydd unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r adroddiad yn cael eu hanfon ymlaen at y clerc.

8. Diweddariad ar Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr

Darparwyd diweddariadau fel y nodwyd uchod.

9. Ymateb Wcráin

Dyweddodd JL wrth y Fforwm bod grŵp gweithredol, yn sgil argyfwng Wcráin, wedi'i sefydlu sy'n cwrdd yn wythnosol er mwyn sicrhau dull gweithredu ledled y Cyngor, gyda chynrychiolwyr o ystod o adrannau gwahanol ar draws yr awdurdod yn mynychu.

Nid yw LIC yn bwriadu gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r cod derbyn i ysgolion a chaiff unrhyw ymgeiswyr sydd wedi'u cadarnhau eu trin yn gyfartal. Mae Cyngor Dinas Casnewydd fodd bynnag wedi creu darpariaeth hwb, yn benodol ar gyfer plant Wcreinaidd yn Ysgol Gynradd Milton ac Ysgol Llan-wern er mwyn gallu cyfuno adnoddau a thargeddu cefnogaeth i'r plant. Mae dewis rhieni fodd bynnag hefyd yn dal i gael ei ystyried wrth asesu ceisiadau o'r fath.

O ran sefyllfa ehangach Cymru, gofynnwyd am 265 o leoliadau, gyda'r mwyafrif wedi'u lleoli yn Sir Fynwy / Sir Gaerfyrddin. Hyd yn hyn mae 17 cais wedi eu derbyn yng Nghasnewydd ac wedi cael lle ysgol. Mae data'n cael ei fonitro a'i adrodd i Lywodraeth Cymru.

Holodd y Cadeirydd, pe bai plentyn yn mynegi dewis, a fyddai'n cael ei ddewis. Cadarnhaodd JL, os oes gan yr ysgol argaeledd, yna byddai, fodd bynnag os yw'n llawn, byddai'n cael ei wrthod. Nid yw'r ddarpariaeth hwb yn orfodol, fodd bynnag mae teuluoedd yn cael eu hannog i fanteisio ar fudd-daliadau, fel dosbarthiadau cymunedol wedi'u targedu gyda theuluoedd eraill yn yr un sefyllfa, cefnogaeth iaith a chwmsela trawma. Mae cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol hefyd ar gael pan fo hynny'n gymwys yn unol â pholisi cludiant y Cyngor.

10. Polisi Mynediad Teg

Cadarnhaodd KD fod y peilot wedi'i gyflwyno yn ôl y bwriad yn ystod tymhorau'r Hydref a'r Gwanwyn ac mae canlyniadau bellach yn cael eu dadansoddi gyda'r bwriad o weithredu'r weithdrefn hon fel mesur parhaol. Bydd hyn hefyd yn cael ei adolygu yng nghyfarfod nesaf y penaethiaid uwchradd ar 2 Gorffennaf. Mae pob ysgol sydd wedi derbyn disgyblion yn ystod y cynllun peilot wedi dweud eu bod yn dal i fynychu. Os caiff ei fabwysiadu, bydd achosion yn parhau i gael eu trafod mewn Paneli Symudiadau wedi'u Rheoli sy'n cael eu cynnal yn wythnosol.

11. Rhaglen Hyfforddiant Aelodau

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â sefydlu rhaglen hyfforddi y gellid ei hychwanegu at yr agenda gan edrych ar feysydd gwahanol ym mhob cyfarfod. Gofynnwyd i aelodau'r fforwm ystyried unrhyw feysydd / bylchau y maent am ganolbwyntio arnynt ac anfon ymlaen unrhyw awgrymiadau at y clerc.

LP i anfon y Cod Derbyn i Ysgolion ymlaen at aelodau i adolygu cyfrifoldebau.

12. Rhaglen Ad-drefnu

Mae'r cynnig i ehangu Ysgol Bryn Derw bellach wedi'i weithredu ac fe agorwyd yr adeilad newydd - sef Ysgol Bryn Derw ym Mharc Kimberley - i ddisgyblion ar 6 Mehefin 2022.

Ar hyn o bryd, nid oes cynigion ad-drefnu ysgolion byw ar y gweill.

13. Unrhyw fater arall

Cododd FR 2 ymholiad gan NAPHS ynghylch y cyfrifoldeb o gael tystysgrifau geni a chael digon o wybodaeth ynghylch disgyblion ADY cyn eu derbyn.

Cadarnhaodd JL nad oes gofyniad yn y Cod Derbyn i Ysgolion i wirio dyddiad geni, fodd bynnag mae angen y gwiriad hwn, yn enwedig os yw plentyn yn cael ei gyflwyno'n un oed ond bod ei oedran yn wahanol mewn gwirionedd. Ni all Derbyniadau wrthod penderfynu ar gais ar y sail na dderbyniwyd tystiolaeth, fodd bynnag os nad yw hyn yn cael ei ddarparu, cynghorir rhieni i fynd â chopi i'r ysgolion pan fyddant yn trefnu dyddiad cychwyn. Os nad yw'r neges yn ddigon cryf yn y llythyr penderfynu, gellir adolygu hyn.

O ran ADY, cytunwyd y byddai'r Tîm Derbyn Ysgolion yn ymateb i'r ysgol yn uniongyrchol ynghylch yr achosion penodol dan sylw.

14. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol

Cytunwyd i newid y cyfarfod nesaf o 15 i 8 Tachwedd.

Cytunwyd ar gyfarfod tymor yr Haf 2023 ar gyfer 16 Mai.